

Cyngor Adnewyddu'r Economi

Cyflogaeth a Sgiliau

Cyflwyniad

1. Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru at gyflogaeth a sgiliau yn adeiladu ar lwyddiannau dros y blynyddoedd diwethaf o ran darparu atebion arloesol, hyblyg ac ymatebol sy'n diwallu anghenion cyflogwyr ac unigolion.
2. Mae'r pedair blaenoriaeth allweddol ar gyfer buddsoddi a chymorth fel a ganlyn:
 - Galluogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial drwy ddatblygu sgiliau, rhinweddau a chymwysterau;
 - Annog buddsoddiad mewn sgiliau fel ffactor sy'n ysgogi cynhyrchiant a thwf;
 - Cefnogi llwybrau at swyddi cynaliadwy i bobl ddifreintiedig a phobl ddi-waith;
 - Sicrhau bod y seilwaith dysgu yn gallu darparu sgiliau a hyfforddiant ar gyfer cenedl fodern ddwyieithog.

Cyflogaeth a Sgiliau Integredig

3. Mae cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc ac oedolion a helpu pobl i gael swyddi cynaliadwy yn flaenoriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru. Yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru yn ymestyn prentisiaethau; yn darparu cyfleoedd hyfforddiant; ac yn creu 4,000 o swyddi bob blwyddyn i bobl ifanc drwy raglen Twf Swyddi Cymru.
4. Ein nod yw atgyfnerthu'r amodau a fydd yn galluogi busnesau i greu swyddi a sicrhau twf economaidd cynaliadwy drwy ddarparu gweithlu cystadleuol â'r sgiliau addas ar gyfer busnesau.
5. Mae busnesau yn cael eu hannog i wireddu potensial llawn prentisiaid ar gyfer economi Cymru. Oherwydd y dirywiad economaidd bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid edrych ar Brentisiaethau mewn ffordd wahanol ar gyfer pob grŵp cleientiaid. Mae ein Rhaglenni Prentisiaethau yn parhau i gwmpasu amrywiaeth eang o sgiliau, a byddant yn canolbwyntio'n benodol ar sectorau â blaenoriaeth a fydd o fudd uniongyrchol i gyflogwyr ledled Cymru.
6. Un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu yw creu swyddi a chyfleoedd i bobl ifanc, a sicrhau bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i gynorthwyo'r economi. Wrth i ni ddatblygu ein rhaglen Prentisiaethau i bob oed, mae'n rhaid i ni sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng diwallu anghenion pobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad swyddi, a sicrhau bod opsiynau ar gael i oedolion a chyflogwyr uwchsgilio eu staff.
7. Mae datblygiadau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod arian gan gronfeydd Strwythurol Ewrop ar gael o 2014 i helpu i gyflawni

camau gweithredu o ran cyflogaeth a sgiliau. Ein huchelgais yw creu system symlach ar gyfer unigolion a chyflogwyr, a fydd yn cynnig cymorth mwy ymatebol a hyblyg sy'n cael ei lywio gan angen a nodwyd yn glir.

8. Wrth i gylch cyllido presennol Cronfeydd Strwythurol Ewrop dynnu at ei derfyn, mae darpariaeth cymorth cyflogaeth a sgiliau yn y dyfodol yn cael ei datblygu ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, yn enwedig yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) ac Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (DEST). Gyda mwy o bwysau ar arian cyhoeddus, ynghyd â natur gyfyngedig cronfeydd Ewropeaidd, yr angen am ymyriadau mwy arloesol a chydweithredol sy'n cynnig gwell gwerth am arian, o reidrwydd, yw'r ffactorau sy'n ysgogi newid bellach.
9. Yn strategol, mae nifer o feysydd â blaenoriaeth yn dylanwadu ar y cyfeiriad teithio. Mae Ewrop, yn arbennig, wedi pennu'r agenda ar gyfer gwariant yn y dyfodol; uchelgais Ewrop 2020 yw cynyddu'r gyfradd cyflogaeth ar gyfer merched a dynion 20-64 oed i 75%, gan gynnwys drwy gynyddu cyfranogiad pobl ifanc, gweithwyr hŷn a gweithwyr â sgiliau isel.
10. Mae agenda strategol Llywodraeth Cymru ei hun fel y'i nodir yn y Rhaglen Lywodraethu yn cyd-fynd yn agos iawn â'r blaenoriaethau a bennwyd ar lefel Ewropeaidd. O ran cyflogaeth a sgiliau yn arbennig, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bawb drwy ddarparu systemau cymorth a systemau budd-daliadau sy'n darparu cymhellion i weithio ac yn lleihau nifer y bobl heb waith er mwyn sicrhau y gall unigolion gyflawni eu potensial o fewn y farchnad lafur. Mae heriau allweddol yn cynnwys aelwydydd heb waith, diweithdra ymhlith pobl ifanc, anweithgarwch economaidd, tangyflogaeth a datblygu yn y gwaith.

Gwybodaeth am y Farchnad Lafur

11. Mae sgiliau pobl yng Nghymru yn hanfodol i lwyddiant a ffyniant y genedl yn y dyfodol, ac mae deall y cyflenwad o sgiliau, a'r galw amdanynt, yn dod yn fwyfwy pwysig.
12. Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi i ddatblygu ac atgyfnerthu ein dealltwriaeth o ba sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr a pha sgiliau y maent yn gofyn amdanynt. Mae hyn yn cynnwys yr hyn y mae cyflogwyr yn ei ddweud wrthym am y cyflenwad o sgiliau a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt nawr ac yn y dyfodol.
13. Rydym yn datblygu ein cynnig cyflogaeth a sgiliau integredig i gyflogwyr ac unigolion drwy fynd ati i sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid er mwyn helpu i lywio ein syniadaeth a chasglu gwybodaeth i gefnogi ein dull gweithredu.
14. Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau, gan greu system lawn gwybodaeth sy'n gweithredu i rymuso unigolion a busnesau, ac felly system sy'n fwy seiliedig ar y galw ac yn canolbwyntio'n fwy ar y cwsmer.

15. Ein prif nod yw sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi yn canolbwyntio ar sicrhau gwell canlyniadau, gan roi cymorth i gyflogwyr ym maes cyflogaeth a sgiliau sy'n hygyrch ac sy'n diwallu anghenion busnesau.
16. Mae'r Archwiliad Sgiliau Strategol Cenedlaethol i Gymru (NSSAW) 2012, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror eleni, yn rhoi mewnwelediad a rhagolwg er mwyn creu marchnad sgiliau fwy hyddysg yng Nghymru. Mae'n cefnogi gwell cydbwysedd rhwng y sgiliau sydd eu hangen a'r sgiliau sydd ar gael. Mae'n amlwg bod unigolion yn y farchnad lafur sy'n meddu ar wybodaeth gywir yn debygol o wneud dewisiadau gwell, gan arwain at well canlyniadau i ddinasyddion, cyflogwyr a lles economaidd y wlad.
17. Mae'r adroddiad yn adeiladu ar yr NSSAW cyntaf, *Sgiliau ar gyfer Swyddi*, a gynhaliwyd yn 2011 ac yn dwyn data newydd o Working Futures 2010-2020 ynghyd er mwyn creu un synthesis cynhwysfawr sy'n hawdd ei ddeall. Mae elfen allweddol o NSSAW 2012 yn cynnwys nodi'r galwedigaethau a'r sectorau y mae angen rhoi'r sylw mwyaf iddynt er mwyn sicrhau bod gan Gymru y sgiliau hanfodol i fodloni gofynion y farchnad lafur sy'n datblygu heddiw a darparu ar gyfer newidiadau tebygol mewn patrymau cyflogaeth yn y dyfodol.
18. Mae awydd i ddatganoli mwy o gyfrifoldeb dros gyflawni ar lefel fwy lleol yn dylanwadu'n fawr ar y dull cyflawni sy'n cael ei fabwysiadu yng Nghymru, a chydabyddir mai strwythurau lleol sydd yn y sefyllfa orau i gynnig yr ateb cywir ar gyfer eu rhanbarth. Mae Adolygiad Guilford o'r trefniadau ar gyfer gweithredu cylch 2014 o gyllid Ewropeaidd, a gynhaliwyd yn ddiweddar, yn dangos yn glir werth dull mwy rhanbarthol o nodi anghenion lleol ac ymateb iddynt wedi'i osod yng nghyd-destun Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd. Gan adeiladu ar ganlyniadau'r Adolygiad hwn, rydym yn gweithio gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i lywio'r Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd arfaethedig a datblygu ôl troed clir ar gyfer cyflawni ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, a fydd yn darparu'r sail ar gyfer portffolio integredig o weithgarwch cyflogaeth a sgiliau.

Buddsoddiad Cyflogwyr mewn Sgiliau

19. Rydym am sicrhau bod unigolion a busnesau wrth wraidd yr hyn a wnawn. Ein nod yw cynyddu cyfraddau cyfranogi, hwyluso cyd-fuddsoddi a'i gwneud yn bosibl i integreiddio gwasanaethau cyflogaeth a sgiliau.
20. Aeth yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer Plant 14-19 oed yng Nghymru, a lansiwyd ym mis Medi 2011, ati i ystyried sut y gallwn gyflawni'r weledigaeth o 'gymwysterau a ddeallir ac a werthfawrogir ac sy'n diwallu anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru'. Ysgogwyd yr Adolygiad gan nifer o bryderon ynghylch cymhlethdod y system bresennol ac i ba raddau y mae'n cael ei deall, a pherthnasedd, gwerth a chadernid rhai cymwysterau.
21. Roedd yr Adolygiad yn seiliedig ar dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau a thrafodaethau helaeth ag amrywiaeth eang o grwpiau rhanddeiliaid, gan

gynnwys nifer fawr o gyflogwyr, eu cyrff cynrychioliadol, Cyngorau Sgiliau Sector, siambrau masnach ac ati.

22. Roedd themâu allweddol yn yr adolygiad yn adlewyrchu barn a chyfraniadau cyflogwyr, gan gynnwys pwyslais ar berthnasedd cymwysterau, symleiddio'r system, gwell cyfathrebu ac eglurder ynghylch beth mae cymwysterau yn ei olygu, cyflogadwyedd a sgiliau ehangach a'u lle yn Bac Cymru, a'r arholiadau TGAU newydd i asesu llythrennedd a rhifedd yn well.

23. Mae annog cyflogwyr i fuddsoddi mewn sgiliau yn rhan bwysig o'n dull gweithredu yng Nghymru. Defnyddir Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar hyd o bryd mewn amrywiaeth o ffyrdd gan fusnesau i helpu i ddatblygu eu cyflogeion. Mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn rhoi disgrifiad clir o'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar unigolyn i gyflawni ei swydd i'r safon ofynnol a gallant helpu cyflogwyr:

- Nodi arfer gorau
- Gwerthuso sgiliau presennol neu fylchau presennol mewn sgiliau
- Nodi anghenion datblygu cyflogwyr a chyflogeion
- Cynllunio a nodi hyfforddiant priodol
- Datblygu swydd-ddisgrifiadau a manylebau pobl

24. Fodd bynnag, mae safbwyntiau ar ddiben, gwerth a manylion Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn amrywio'n fawr ar draws y sectorau galwedigaethol ac ym mhob un o bedair Gwlad y DU. Ymddengys fod Lloegr yn symud tuag at fabwysiadu ei model Buddsoddiad Cyflogwyr ar gyfer safonau, sy'n rhoi cwmnïau bach a chanolig, nad ydynt fel arfer yn cael cyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau nac ariannu gweithgarwch sy'n gysylltiedig â sgiliau, neu na allant wneud hynny, o dan anfantais.

25. Yng Nghymru, fel gyda'r tair gwlad ddatganoledig arall, rydym yn parhau'n ymrwymedig i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol fel "cynnyrch sylfaenol" i'w defnyddio i ddatblygu Cymwysterau Galwedigaethol ac at ddibenion eraill.

Crynodeb

26. Bydd y cynnig cyflogaeth a sgiliau integredig i unigolion a busnesau yn darparu model cyflawni cynaliadwy a fydd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i greu swyddi cynaliadwy tra'n galluogi unigolion a busnesau i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gweithlu cynhyrchiol, cystadleuol a hyfedr.

27. Rydym am greu digon o hyblygrwydd fel y gall ein partneriaid gyflawni ar gyfer unigolion a busnesau tra'n cynnal gwasanaeth o safon. Byddwn yn canolbwyntio penderfyniadau buddsoddi ar sicrhau gwell canlyniadau, darparu mwy o hyblygrwydd, canolbwyntio ar ansawdd a chefnogi rhagolygon hirdymor unigolion a busnesau.

28. Byddwn yn galluogi partneriaid cyflawni i gydweithio'n ddaearyddol, gan leihau dyblygu ymdrech, darparu gwasanaeth integredig a sicrhau gwell gwerth am arian drwy nodau cyffredin. Drwy gyfuno ein buddsoddiadau fel hyn ein gobaith yw darparu taith ddi-dor ar gyfer unigolyn neu gyflogwr wrth ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau cymorth lleol.
29. Bydd ein dull gweithredu yn darparu record o lwyddiannau ym maes sgiliau a fydd yn parhau'n allweddol i osod sail gadarn ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy a bydd yn adeiladu ar y record honno.